# Cais am Drwydded

## Nodiadau canllaw

### Darllenwch y nodiadau canllaw hyn cyn llenwi'r cais

Dyma eich cais am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni neu Gerbyd Llogi Preifat. Cyn i chi lenwi'r ffurflen dylech neilltuo amser i ddarllen y wybodaeth ganlynol. Bydd yn eich helpu chi i benderfynu a ydych chi'n bodloni'r gofynion sylfaenol er mwyn dod yn Yrrwr Cerbyd Hacni a/neu Gerbyd Llogi Preifat.

**Gofynion sylfaenol**

- Rhaid i chi fod yn 21 oed neu'n hŷn.
- Rhaid i chi fod yn iach yn feddyliol ac yn gorfforol a rhaid gallu helpu teithwyr gyda'u bagiau.
- Rhaid i chi fod yn berson da, sobr a gonest.

**Y weithdrefn ymgeisio**

1. Rhaid cyflwyno'r ffurflen gais gychwynnol wedi ei chwblhau ynghyd â'r canlynol:-
    - **Trwydded Yrru Lawn Gyfredol y DVLA.** Rhaid bod y drwydded gennych chi ers o leiaf 12 mis
    - **2 lun lliw maint pasbort.** Rhaid i'r lluniau hyn fod yn rhai diweddar, nid yn llungopïau ac ni ddylai'r person ynddynt wisgo het na sbectol haul.
    - **Prawf Adnabod Boddhaol gan gynnwys Prawf o Gymhwysedd i Weithio yn y DU -** Tystiolaeth ddogfennol foddhaol y gellir ei chyflwyno i gefnogi cais. Mae rhestr lawn ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/right-to-work-checklist (Rhaid i Ddinasyddion yr UE gyflwyno Cod Rhannu Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE)
    - **Prawf o'ch Cyfeiriad** – Rhaid iddo fod wedi dod drwy'r system bostio nid cyn 3 mis yn ôl. (Mae'r rhestr wedi'i chynnwys yn y pecyn ymgeisio).
    - **Rhaid eich bod wedi gofyn am Enw Defnyddiwr a Chyfrinair (cyfeiriwch at y Canllaw ymgeisio) ac yna wedi cyflwyno Cais y Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd (GDG) ar-lein**. Mae gofyn i chi gwblhau a llofnodi Ffurflen Gais Datgelu gan y GDG. Mae trwyddedu yn cydymffurfio'n llawn â Chod Ymarfer y GDG y mae ei fanylion ar gael ar y wefan Ddatgelu ar www.homeoffice.go.uk/dbs Bydd hyn yn galluogi gwirio eich hanes troseddol, os oes un. Gweler Polisi Trwyddedu Cerbydau Tacsi a Llogi Preifat, Meini Prawf Ffitrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr ar www.caerdydd.gov.uk.
    - **Ffi o £43.00**. Dylech wneud sieciau yn daladwy i Gyngor Caerdydd. DS Mae'r swm hwn yn cynrychioli'r ffi sy'n daladwy i'r GDG. Codir y ffi trwyddedu ar wahân ar ôl i'r weithdrefn ymgeisio gael ei chwblhau yn llwyddiannus.

2. Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno'r dogfennau ategol canlynol o fewn 4 mis:

- **Tystiolaeth o fod wedi cyflawni cymhwyster SQA, Tystysgrif Lefel 2 Cyflwyniad i Swydd y Gyrrwr Tacsi a Cherbyd Llogi Preifat Proffesiynol yn llwyddiannus.**

**I gael rhestr gyfredol o ganolfannau profi cymeradwy SQA, ewch i https://www.sqa.org.uk/sqa/81913.html neu cysylltwch â SQA dros y ffôn ar 0345 279 1000**

- Tystysgrif Feddygol Grŵp 2 wedi'i llofnodi gan eich Meddyg Teulu chi neu Feddyg Teulu arall yn y Practis lle rydych chi wedi cofrestru, yn nodi eich bod chi'n gorfforol iach i yrru Cerbyd Hacni neu Gerbyd Llogi Preifat (amgaeir ffurflen feddygol wag i'w llenwi gan eich meddyg neu gan feddyg arall yn y Practis lle rydych chi wedi cofrestru).

- Y Dystysgrif gan y GDG.

- 'Cod Gwirio' y DVLA sy'n galluogi'r Adran Drwyddedu i weld eich cofnod gyrru gyda'r DVLA.

**Er mwyn cael Cod Gwirio**, ewch i
https://www.gov.uk/gweld-neu-rannu-eich-gwybodaeth-trwydded-yrru (neu ffoniwch 0300 7906801)

*Cliciwch ar* Gweld neu Rannu gwybodaeth eich trwydded yrru
*Cliciwch ar* Dechrau nawr
Rhowch Rhif y Drwydded Yrru
Rhowch Rhif Yswiriant Gwladol
Rhowch Cod Post
*Ticiwch* "Rwy'n cytuno"
*Cliciwch ar* Gweld Nawr

Cornel Uchaf ar y Dde – *Cliciwch ar* "Cael eich Cod Gwirio"
*Cliciwch ar* Cael Cod
Ysgrifennwch yr union god a **roddir (Priflythrennau/llythrennau bach)** neu mewn Llythrennau Bras
**Mae'r priflythrennau/llythrennau bach o bwys, ac mae'r cod yn ddilys am 21 diwrnod ond dim ond unwaith y cewch ef.**

3. Yn amodol ar eich cais a'ch dogfennau ategol boddhaol a chyn y rhoddir Trwydded i chi, bydd gofyn i chi sefyll prawf i ddangos eich gwybodaeth am ardal Caerdydd.

Mae'r prawf yn cynnwys arholiad ysgrifenedig a llafar. Os ydych chi'n methu'r prawf cyntaf, rhoddir cyfle i chi sefyll ail brawf. Ni chaniateir i chi sefyll trydydd prawf oni bai eich bod wedi ennill sgôr benodol yn y prawf blaenorol.

Profion gwybodaeth ysgrifenedig (y dylech dalu amdanynt yn y Swyddfa Cludiant Cyhoeddus neu dros y ffôn gyda cherdyn debyd)
Ar ôl i'r holl ddogfennau perthnasol gael eu cyflwyno, ac rydych wedi talu'r ffi, cewch amser a dyddiad y prawf trwy'r post.

Prawf Ysgrifenedig – bydd y prawf hwn yn cynnwys y rhannau canlynol

- **Rhan 1** – 5 marc posibl (5 cwestiwn) – Mathemateg gymhwysol
- **Rhan 2** – 39 marc posibl (20 cwestiwn) – Deddfwriaeth Cerbydau Hacni a Llogi Preifat – yn seiliedig ar is-ddeddfau cerbydau hacni, deddfwriaeth ac amodau'r drwydded
- **Rhan 3** – 24 marc posibl (12 cwestiwn) - Profir eich gwybodaeth am leoliad adeiladau amlwg, sefydliadau adloniant, gwestai ac ati.
- **Rhan 4** – 24 marc posibl (12 cwestiwn) – Ardaloedd – rhoddir enw stryd i chi a bydd angen i chi enwi'r ardal.
- **Rhan 5** – 8 marc posibl (4 cwestiwn) - Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant – Cwestiynau sy'n seiliedig ar lyfryn Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a roddir yn y pecyn cais am grant neu ar alw.

Os ydych yn pasio'r prawf ysgrifenedig yn llwyddiannus byddwch yn gallu sefyll y prawf llafar.

Prawf Llafar – Gwiriwch y ffioedd prawf diweddaraf

(Gellir talu dros y ffôn gyda cherdyn debyd neu yn y Swyddfa Cludiant Cyhoeddus gydag arian parod, siec neu gerdyn debyd). Byddwch yn derbyn yr amser a’r dyddiad trwy’r post.

Bydd yr arholwr yn gofyn i chi ddisgrifio’r llwybr byrraf a mwyaf uniongyrchol rhwng detholiad o 15 o wahanol fannau cychwyn a gorffen drwy’r Ddinas. Gofynnir 15 o gwestiynau atodol ar hap i chi hefyd yn seiliedig ar luniau o leoliadau.

Os na ddewch i apwyntiad prawf a hynny heb roi o leiaf 48 awr o rybudd bydd angen i chi dalu ffi archebu o £10 os hoffech aildrefnu prawf arall.

4. Os ydych chi’n pasio’r prawf gwybodaeth yn llwyddiannus, rhoddir Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Llogi Preifat i chi. Yn ystod y cam hwn y bydd angen i chi dalu ffi’r Drwydded. I gael gwybod faint yw ffi bresennol y Drwydded, gallwch chi naill ai ffonio (029) 20871 134/5 neu alw heibio i’r Swyddfa Cludiant Cyhoeddus.

   Os ydych chi’n methu’r prawf llafar, cewch chi a’r Swyddog Gorfodi gytuno ar ddyddiad newydd ar gyfer yr ail (neu’r trydydd) brawf. Cofiwch na ellir aildrefnu’r dyddiadau hyn.

5. Ynghlwm wrth eich Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Llogi Preifat, bydd nifer o Amodau y mae’n rhaid i chi gydymffurfio â nhw bob amser.

   Os ydych wedi darllen a deall y gofynion uchod, ac yn dymuno parhau â’ch cais i fod yn Yrrwr Cerbyd Hacni neu’n Yrrwr Cerbyd Llogi Preifat, yna cwblhewch y ffurflen wedi’i hatodi a’i dychwelyd i’r swyddfa hon yn y cyfeiriad isod gyda’r ddogfennaeth ganlynol.

Trwyddedu Tacsis
tacsi@cardiff.gov.uk
Neuadd y Ddinas
**tacsidbs@cardiff.gov.uk**
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3ND

trwyddedu@cardiff.gov.uk
www.caerdydd.gov.uk/trwyddedu

# Trwydded Yrru Cerbydau Hacni/Llogi Preifat
# Cais am Drwydded

**Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 / Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 (fel y'i diwygiwyd)**

***Darllenwch y Canllaw "Dechrau eich Cais i fod yn Yrrwr trwyddedig".***

**Cwblhewch y ffurflen hon gyda phriflythrennau a thiciwch lle mae'n briodol. NI chaiff y ffurflen hon ei phrosesu os nad yw POB adran isod wedi ei chwblhau.**

**Cyn cwblhau'ch cais, darllenwch y nodiadau canllaw ar ddiwedd y ffurflen hon i'ch helpu i benderfynu a ydych yn bodloni'r gofynion sylfaenol i fod yn yrrwr Cerbyd Hacni/Llogi Preifat.**

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi datganiad polisi ynghylch perthnasedd euogfarnau sydd ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/trwyddedu neu'n gopi papur gan yr Adran Trwyddedu. **Dylech ddarllen y ddogfen hon cyn cwblhau eich cais.**

**This form is also available in English / Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael yn Saesneg**

## 1. Manylion yr Ymgeisydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw llawn: | | | |
| Cyfeiriad cartref: | | Cod post | |
| Dyddiad geni: | | Rhif yswiriant gwladol: | |
| Rhif ffôn llinell dir | | Rhif ffôn symudol: | |

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad e-bost: | |

## 1. Manylion yr Ymgeisydd (Parhad)

| | | |
|---|---|---|
| Gwlad enedigol: | | (Dinasyddion yr UE) Cod Rhannu Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE |
| Cenedligrwydd: | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A oes gennych hawl i breswylio'n gyfreithlon yn y DU? | Oes | | Nac oes | |
| A oes gennych hawl i weithio'n gyfreithlon yn y DU? | Oes | | Nac oes | |

**Bydd angen dogfennau ategol gwreiddiol i brofi eich hawl i aros a gweithio yn y DU.**

## 2. Manylion Gyrru ayyb.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dyddiad y cawsoch chi drwydded yrru DVLA lawn: | | | | |
| A ydych chi wedi eich trwyddedu’n flaenorol i yrru cerbyd llogi yn yr awdurdod hwn neu mewn awdurdod arall? | Ydw | | Nac ydw | |
| A oes gennych chi drwydded gyfredol i yrru cerbyd i’w logi mewn awdurdod arall? | Oes | | Nac oes | |

Os Oes, rhowch fanylion yr holl drwyddedau blaenorol……………………………………………………………………….

……………………………………………………………………………………………………………………………

Rhowch fanylion y gweithredwr Llogi Preifat rydych yn bwriadu gweithio iddo (os o gwbl)?

……………………………………………………………………………………………………………………………

## 3. Iechyd

Mae’n ofynnol gan Gyngor Dinas Caerdydd bod ymgeiswyr yn bodloni safonau meddygol Grŵp 2 a rhaid cyflwyno tystysgrif feddygol foddhaol. Cyfeiriwch at y nodiadau canllaw i gael rhagor o wybodaeth.

**Rhaid i chi roi gwybod ar unwaith i'r awdurdod trwyddedu am unrhyw newid o ran eich ffitrwydd meddygol a all effeithio ar eich gyrru neu ar eich gallu i gyflawni dyletswyddau Gyrrwr Cerbyd Hacni neu Logi Preifat.**

## 4. Datganiad o Gollfarnau Blaenorol ac ati.

Er mwyn asesu eich addasrwydd i fod yn yrrwr trwyddedig, mae angen i chi ddatgelu unrhyw gollfarnau, rhybuddion, ceryddon neu rybuddion terfynol nad ydynt wedi'u "gwarchod" fel y diffinnir gan Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2013).

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A ydych erioed wedi'ch cael yn euog o drosedd traffig ffordd, neu a oes gan eich trwydded DVLA unrhyw ardystiadau? | Ydw/Oes | | Nac ydw/Nac oes | |

Os ydych/oes, rhowch fanylion isod:

……………………………………………………………………………………………………………………...

.............................................................................................................................................................

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A ydych wedi'ch cael yn euog neu wedi cael rhybudd neu hysbysiad cosb benodedig am unrhyw drosedd heblaw am droseddau moduro? | Ydw | | Nac ydw | |

Os ydych, rhowch fanylion isod

……………………………………………………………………………………………………………………

.............................................................................................................................................................

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A oes gennych unrhyw erlyniadau gyrru a/neu droseddol yn yr arfaeth yn eich erbyn? | Oes | | Nac oes | |

Os Oes, rhowch fanylion isod gan gynnwys dyddiad y gwrandawiad

……………………………………………………………………………………………………………………

.............................................................................................................................................................

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A ydy eich trwydded Cerbyd Hacni/Llogi Preifat erioed wedi'i gwrthod/diddymu/hatal gan Gyngor Caerdydd neu unrhyw awdurdod lleol arall? | Ydy | | Nac ydy | |

Os Ydy, rhowch y dyddiadau a manylion cryno:

.............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

**Byddwn yn gwirio'r holl gofnodion sydd ar gael. Gall peidio â nodi pob euogfarn/rhybuddiad/rhybudd/hysbysiad cosb olygu y bydd rhaid i chi fynd i wrandawiad pwyllgor.**

## 5. Datganiad

**Darllenwch yr adran hon yn ofalus ac ni ddylech ond ei llofnodi os ydych yn ei deall ac os yw'n wir.**

**(1)** Rwy'n datgan trwy hyn fy mod wedi gwirio'r wybodaeth a gyflwynaf ar y ffurflen gais am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Llogi Preifat hon a'i bod, hyd y gwn i, yn gywir. Gwnaf y datganiad hwn gan wybod os bu i mi, yn wybodus neu'n ddiofal, wneud datganiad ffug neu hepgor rhywbeth yn gamarweiniol, y byddaf yn agored i gael fy erlyn ac (os caf drwydded) y gellir atal neu ddirymu fy nhrwydded.

**(2)** Deallaf y bydd unrhyw drwydded yn amodol ar y darpariaethau canlynol:

a. Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847
b. Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
c. is-ddeddfau ac amodau trwydded y Cyngor ac unrhyw gyfreithiau, is-ddeddfau neu reoliadau perthnasol eraill sy'n dod i rym

**(3) Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) – Polisi Preifatrwydd**
Ar gyfer ymgeiswyr sy'n gwneud cais am wiriad GDG. Bydd y dystysgrif yn cael ei hanfon i'ch cyfeiriad cartref a'ch cyfrifoldeb chi yw dod â'r gwreiddiol i'r Swyddfa Cludiant Cyhoeddus pan fyddwch yn ei derbyn. Rhaid i chi hefyd lofnodi'r datganiad isod.

Rwyf wedi darllen y Polisi Preifatrwydd Gwiriad Safonol/Manwl i ymgeiswyr https://www.gov.uk/government/publications/dbs-privacy-policies ac rwy'n deall sut bydd GDG yn prosesu fy nata personol a'r opsiynau sydd ar gael i mi ar gyfer cyflwyno cais.

**(4) NR3 Cofrestr Genedlaethol o Wrthodiadau a Dirymiadau**
Pan ddaw cais i law am drwydded, byddwn yn gwirio manylion yr ymgeisydd ar y gofrestr i gadarnhau nad oes unrhyw gofnod bod trwydded wedi'u dirymu ganddo neu ei gwrthod iddo'n rhywle arall.
Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ychwanegu manylion sylfaenol am yrwyr pan fyddwn yn gwrthod cais neu'n dirymu eu trwydded. Cyfyngir y manylion sydd ar y gofrestr i wybodaeth a fydd yn helpu i adnabod unigolyn i ryw raddau o gywirdeb. Nid yw'r gofrestr yn cynnwys unrhyw wybodaeth am pam y gwrthodwyd cais neu pam y diddymwyd trwydded. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Busnes/Trwyddedau/gyrwyr-tacsi/national-driver-register/Pages/default.aspx

**(5) Deddf Diogelu Data 2018**
Caiff unrhyw ddata a roddir gennych ar y ffurflen hon ei brosesu yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data, ac wrth ei roi rydych chi'n caniatáu i Gyngor Caerdydd ei brosesu at y diben y'i rhoddwyd. Bydd yr holl wybodaeth bersonol a rowch yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol a dim ond at ddibenion a ganiateir gan y gyfraith y bydd y Cyngor yn ei defnyddio neu ei datgelu i eraill.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddiogelu'r arian cyhoeddus y mae'n ei weinyddu, ac i'r perwyl hwn gall ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych mewn perthynas â'ch cais trwyddedu a'r data a gedwir o fewn yr awdurdod i atal a chanfod twyll. Lle bo angen, gall hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n gweinyddu arian cyhoeddus a sefydliadau eraill at y dibenion hyn yn unig. O dan Erthygl 6(1)(e) o'r GDPR, caniateir i ni ddefnyddio eich data personol ar gyfer ein tasgau cyhoeddus.

Byddwn hefyd yn rhannu eich data os yw'n ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith, er enghraifft, trwy orchymyn llys, corff rheoleiddio sy'n arfer pwerau statudol neu i atal twyll neu drosedd arall.

**Cynghorir ymgeiswyr ei bod yn drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid, neu hepgor unrhyw ddeunydd yn enwedig wrth roi gwybodaeth.**

Llofnod yr ymgeisydd.......................................................................................... Dyddiad ......................................

Printiwch eich enw llawn...............................................................................................

**AT DDEFNYDD SWYDDOGOL YN UNIG**

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwynwyd GDG | √ | | X | | | Trwydded Yrru | √ | | X | |
| 2 Ffotograff | √ | | X | | | Pasbort/Deunydd Adnabod Arall | √ | | X | |
| Gwiriad NR3 - CLIR | √ | | X | | | Rhoddwyd rhif YG | √ | | X | |
| Prawf o’r hawl i weithio yn y DU | √ | | X | | | Prawf o Gyfeiriad (3 mis) | √ | | X | |
| Caniatâd i aros neu Gwiriwyd Setliad yn yr UE | | | | | | Rhif y Dderbynneb: | Arian Parod Siec Debyd | Talodd y GDG: | £43 | |
| Cod y DVLA | √ | | X | | | Rhif y Dderbynneb: | Arian Parod Siec Debyd | Swm a daliwyd: | £ | |
| Tystysgrif Feddygol Ddilys | √ | | X | | | Swyddog prosesu: | | | | |
| Tystysgrif SQA | √ | | X | | | | | | | |

**TRWYDDEDU CYNGOR CAERDYDD MONITRO ETHNIG**

Mae cynllun monitro ethnig gan Gyngor Dinas Caerdydd er mwyn sicrhau ein bod yn gwasanaethu ein cymuned gyfan yn gyfartal. Caiff y wybodaeth a roddir ei chadw ar wahân i'ch ffeil a'i chadw'n ddienw. Helpwch ni drwy gymryd ychydig funudau i lenwi'r ffurflen hon.

**Am ba fath o drwydded rydych yn gwneud cais?** ____________________________________

Ydych chi'n eich ystyried eich hun yn Gymro/Cymraes? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Nawr dewiswch **UN** o'r canlynol:

## Gwyn

Prydeinig ☐ Gwyddelig ☐ Ewropeaidd ☐

Unrhyw gefndir Gwyn arall: ____________________________________

## Du

Prydeinig ☐ Affricanaidd ☐ Caribïaidd ☐

Unrhyw gefndir Du arall: ____________________________________

## Asiaidd

Prydeinig ☐ Pacistanaidd ☐ Indiaidd ☐ Bangladeshaidd ☐

Unrhyw gefndir Asiaidd arall: ____________________________________

## Hil Gymysg

Gwyn a Du Caribïaidd ☐ Gwyn a Du Affricanaidd ☐ Gwyn ac Asiaidd ☐

Unrhyw gefndir Hil Gymysg arall: ____________________________________

## Tsieineaidd neu Ddwyrain Pell arall

Tsieineaidd Prydeinig ☐ Tsieineaidd ☐ Fietnamaidd ☐

Siapanëaidd ☐ Coreaidd ☐

Unrhyw gefndir Tsieineaidd neu Ddwyrain Pell arall: ____________________________________

**Unrhyw gefndir ethnig arall na restrwyd eisoes (nodwch):**

Os dymunwch i ddogfennau gael eu roi i chi yn y Gymraeg, ticiwch yma: ☐

**Ydych chi'n:** Gwryw ☐ Benyw ☐

Os **nad** ydych yn dymuno rhoi eich cefndir ethnig, ticiwch yma: ☐